Cymorth i rieni a gwarcheidwaid

Help y gallech ei gael wrth ddisgwyl neu fabwysiadu plentyn

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Mae cael y wybodaeth a'r help cywir pan fyddwch yn disgwyl neu'n mabwysiadu plentyn yn hanfodol. Mae'r daflen hon yn sôn am y cymorth y gallech ei gael. Nid yw'n mynd i fanylion, ond mae'n egluro o ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth a phwy i gysylltu ag ef. Efallai y gall sefydliadau eraill hefyd eich helpu.

Disgwyl babi

Os ydych yn feichiog mae gennych hawliau penodol o ran cael amser i ffwrdd o'r gwaith, a thâl neu fudd-daliadau. Efallai y cewch gyfnod mamolaeth a naill ai Dâl Mamolaeth Statudol neu Lwfans Mamolaeth.

Mae gan eich gŵr, partner neu bartner sifil hefyd hawl i gyfnod tadolaeth a gallai gael Tâl Tadolaeth Statudol. Efallai y bydd gan bartneriaid sy'n ferched hefyd hawl.

Os ydych yn mabwysiadu plentyn, mae gennych hawliau tebyg. Ond rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu rydych yn ei defnyddio fod wedi'i chydnabod yn briodol gan gyfraith y DU.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn **www.direct.gov.uk/gwaithatheuluoedd**

Gall unrhyw fudd-daliadau a gewch bellach gael eu heffeithio os byddwch yn feichiog. Cysylltwch â'r swyddfa sy'n talu eich budd-dal.

Gallwch gael cyngor iechyd defnyddiol ar feichiogrwydd yn **www.direct.gov.uk/babi**

Mae nifer o gynlluniau i'ch helpu yn ystod eich beichiogrwydd a phan gaiff eich plentyn ei eni. Ymhlith y cynlluniau mae'r talebau Cychwyn Iach a Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn **www.direct.gov.uk/taliadauirieni**

Pan gaiff eich plentyn ei eni

Budd-dal Plant

Taliad di-dreth yw Budd-dal Plant a gallwch wneud cais ar gyfer pob plentyn o dan 16 oed (neu'n hŷn os yw mewn addysg). Efallai bod gennych hefyd hawl os ydych yn mabwysiadu neu'n maethu plentyn.

Dylai mamau newydd gael ffurflen gais Budd-dal Plant yn y 'pecyn bounty' gan yr ysbyty, neu gallwch gael copi ar y we.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn **www.direct.gov.uk/budd-dalplant**

Cymorth i warcheidwaid

Os ydych yn magu plentyn rhywun arall gan fod y ddau riant wedi marw, gallech gael Lwfans Gwarcheidwad. Mewn rhai achosion gallwch hefyd ei gael os oes un rhiant wedi marw, a bod y llall yn anhysbys, ar goll neu yn y carchar.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.direct.gov.uk/cy** a chwiliwch am 'Lwfans Gwarcheidwad'.

Help os byddwch yn ysgaru neu'n gwahanu

Os daw eich perthynas â'ch partner i ben, bydd angen i chi hefyd ystyried trefnu cynhaliaeth plant.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn **www.cmoptions.org/rieni**

Ffôn **0800 988 0988**

Dychwelyd i'r gwaith

Fel rhiant neu warcheidwad, os ydych wedi gweithio mwy na 26 wythnos i'ch cyflogwr mae gennych hawl i ofyn i'ch cyflogwr ystyried oriau gwaith hyblyg. Gallai hyn fod newid nifer y diwrnodau neu oriau rydych yn eu gweithio.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn **www.direct.gov.uk/gwaithatheuluoedd**

Os ydych ar incwm isel, gallech gael Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor. Gall eich cyngor lleol roi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

Efallai y gallech gael Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Treth Plant hefyd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn **www.direct.gov.uk/credydautreth**

Gofal plant

Os ydych yn dechrau gweithio neu'n dychwelyd i'r gwaith, gall trefnu gofal plant fforddiadwy fod yn bwysig. Dewch i hyd i'r opsiynau sydd ar gael yn **www.direct.gov.uk/gofalplant**

Ffynonellau eraill o gyngor

Mae gan Directgov lawer mwy o wybodaeth am gymorth ariannol i rieni, o gostau cyn-ysgol i gymorth os ydych yn rhiant unigol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn **www.direct.gov.uk/cymorthirieni**

Mae gennym hefyd daflenni gwybodaeth sylfaenol sy'n cwmpasu:

- Cymorth os ydych yn sâl neu'n anabl
- Cymorth ar gyfer gofalwyr
- Cymorth os ydych yn chwilio am waith
- Cymorth yn dilyn marwolaeth
- Cymorth os ydych yn ystyried ymddeol.

Mae'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais.

Os na allwch ddefnyddio'r rhyngrwyd, gallwch ffonio am daflen fanylach.

Ffôn **0845 606 5065**
Ffôn Testun **0845 604 0210**

Cost galwadau

Mae galwadau i rifau 0800 yn y daflen hon am ddim o linellau daear BT a'r rhan fwyaf o ffonau symudol.

Ni ddylai galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT gostio mwy na 7c y funud a 11c am sefydlu'r alwad. Efallai y byddwch yn talu mwy os defnyddiwch gwmni ffôn arall neu ffôn symudol. Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly holwch eich darparwr gwasanaeth am gost galwadau. Roedd y prisiau'n gywir ar y dyddiad isod.

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu'r holl amgylchiadau a all godi. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y daflen yn gywir ar y dyddiad isod. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith. Rydym yn argymell eich bod yn cael cyngor annibynnol cyn gwneud penderfyniadau ariannol ar sail y daflen hon.

Nod y Ganolfan Byd Gwaith yw darparu gwasanaeth o safon uchel i'w holl gwsmeriaid. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn ein Siarter Cwsmeriaid yn **www.direct.gov.uk/siarterdwp**

(h) Hawlfraint y Goron
ISBN 978-1-84947-366-8
DWP005W | f1.0 (Tachwedd 2010) | v1.0 (November 2010)